------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2020

Amser: 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(12.30 - 13.00)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru;

(13.00 - 14.00) (Tudalennau 1 - 41)

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Steve Davies, Cyfarwyddwr y Cyfarwyddiaeth Addysg

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Craffu ar Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig - Nodyn Crynodeb 2

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4 a 5

(14.00)

**Egwyl**

(14.00 -14.10)

## 4 Covid-19 – ystyried y dystiolaeth

(14.10 – 14.30)

## 5 Briff technegol Llywodraeth Cymru ynghylch deddfwriaeth sydd ar ddod

(14.30 – 15.30) (Tudalennau 42 – 43)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-17-20 – Papur preifat 1

**Egwyl**

(15.30 – 15.40)

## 6 Trafod deddfwriaeth sydd ar ddod

(15.40 – 16.00)

## 7 COVID-19: sesiwn dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc gyda chynrychiolwyr Race Council Cymru

(16.00 – 16.30) (Tudalen 44)

Angel Ezeadum, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru

Ali Abdi, Prif Gydgysylltydd y Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-17-20 – Papur preifat 2

## 8 Papurau i'w nodi

(16.30)

**Dogfennau atodol:**

**8.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ynghylch effaith Covid-19 ar unedau cleifion mewnol CAMHS**

(Tudalen 45)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-17-20 – Papur i'w nodi 1

**8.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – ymateb i lythyr y Pwyllgor ar 27 Mai yn gofyn am ragor o wybodaeth am effaith Covid-19 ar blant agored i niwed**

(Tudalennau 46 – 50)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-17-20 – Papur i'w nodi 2

**8.3 Gwybodaeth ychwanegol gan y Coleg Nyrsio Brenhinol yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mehefin**

(Tudalennau 51 – 53)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-17-20 – Papur i'w nodi 3 (Saesneg yn unig)

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(16.30)

## 10 Covid-19 – ystyried y dystiolaeth

(16.30 – 16.40)

## 11 Gohebiaeth y Pwyllgor – i'w thrafod a'i chytuno

(16.40 – 16.50) (Tudalennau 54 – 55)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-17-20 – Papur preifat 3 (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Ymgysylltu â dinasyddion**

# Craffu ar Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig

## Crynodeb 2

Gorffennaf 2020

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn archwilio sut mae'r pandemig Covid-19 yn effeithio ar bob agwedd ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan bawb sy'n gysylltiedig â rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ar draws sectorau, gan gynnwys - ymhlith eraill - addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwaith ieuenctid. Ym mis Ebrill 2020, lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad agored i geisio safbwyntiau a phrofiadau o effaith y pandemig. Mae fersiwn addas i blant o'r alwad am safbwyntiau ar gael hefyd.

Gyda hyn mewn golwg, roedd sicrhau bod lleisiau pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn rhan flaenllaw o'r gwaith craffu yn bwysig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Er mwyn ategu hyn, mae'r tîm ymgysylltu â dinasyddion wedi canolbwyntio ar sut i ymgysylltu â

chynulleidfaoedd penodol y gellid ystyried eu bod yn dod o gefndiroedd difreintiedig. Mae’r crynodeb hwn yn cynnwys y prif ganfyddiadau hyd yma.

At hynny, trwy addasu'r dull cwestiynu a ddefnyddiwyd yn y brif alwad am safbwyntiau, crëwyd taflen waith bapur ar gyfer pobl ifanc a allai fod angen llwybr nad yw'n ddigidol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Dosbarthwyd y daflen hon gyda chefnogaeth sefydliadau partner a bydd y canfyddiadau yn cael eu cynnwys mewn crynodebau dilynol.

Dyma fydd y cyntaf o sawl crynodeb a fydd yn cael eu cyflwyno yn achlysurol trwy gydol yr ymgynghoriad. Bydd pob crynodeb yn cael ei rannu’n ddwy:

- Rhan 1 – Themâu sy'n berthnasol i bwnc cyfarfod y Pwyllgor yn ystod yr wythnos sydd i ddod
- Rhan 2 – Themâu cyffredinol sy'n codi o safbwyntiau plant a phobl ifanc y tu hwnt i bwnc y cyfarfod nesaf

Dewiswyd y themâu a’r dyfyniadau ar y sail eu bod yn themâu sy’n codi dro ar ôl tro ac yn berthnasol i’r sefyllfa bresennol. Lle bo’n bosibl ac yn briodol, mae gwybodaeth gyffredinol wedi'i chysylltu â'r dyfyniadau i roi cyd-destun i'r crynodeb hwn.

## Rhan 1 – Themâu Addysg

Mae'r sylwadau a gasglwyd hyd yma gan bobl ifanc ynghylch cau ysgolion a'r effaith ar eu haddysg yn ystod pandemig y coronafeirws wedi bod yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol. Canolbwyntiodd y themâu cyffredinol ar y canlynol: rhyngweithio cymdeithasol; mynediad at gymorth neu wybodaeth; addasu i ffordd newydd o ddysgu; a phryderon ynghylch dychwelyd i'r ysgol sy'n gysylltiedig ag iechyd.

**Rhyngweithio cymdeithasol – Soniodd mwyafrif y bobl ifanc gymaint yr oedden nhw'n gweld eisiau ffrindiau, athrawon a rhai gwersi. Dywedodd nifer fawr o'r bobl ifanc hyn mai eu ffrindiau oedden nhw'n gweld eu heisiau fwyaf. Aeth rhai ymlaen i ddweud y gallen nhw reoli'r gwaith ysgol tra bod eraill yn sôn eu bod yn cael trafferth mewn amgylchedd dysgu newydd.**

"Dwi'n gweld eisiau'r ysgol oherwydd dydw i ddim yn cael gweld fy ffrindiau mwyach. Mae'n anodd gwneud gwaith ysgol gartref ac rwy'n teimlo nad ydw i'n dysgu" - Person 13 oed o Ferthyr Tudful

"Dwi'n gweld eisiau fy ffrindiau yn fawr iawn. Dydw i ddim yn ei hoffi ond galla i wneud fy ngwaith." - Plentyn 8 oed o Ferthyr Tudful

"Dwi'n gweld eisiau bod gyda fy ffrindiau ac roedd cael gwaith ysgol trwy'r e-bost yn rhyfedd i ddechrau ond dwi wedi dod i arfer ag e nawr. Dwi'n pennu fy amserlen fy hun nawr felly mae hynny'n wahanol hefyd." - Person ifanc

"Dwi'n gweld eisiau cymysgu gyda fy ffrindiau a chymdeithasu y tu allan i'r ysgol. Dwi'n dal i allu cadw i fyny â'm gwaith ysgol ond weithiau gall y swm sy'n cyrraedd ar yr un pryd fod yn llethol. Weithiau gall fod yn anodd defnyddio'r gliniadur oherwydd dim ond un sydd gennym yn y tŷ ac mae dau berson angen defnyddio hwnnw." - Person 15 oed o Ferthyr Tudful

"Dwi'n gweld eisiau cael hwyl gyda fy ffrind oherwydd roedd gennym ni rywbeth i siarad amdano bob amser ond nawr does gennym ni ddim byd." - Person 11 oed o Ferthyr Tudful

"Dwi'n ei gweld yn chwith heb wersi fel yr Ysgol Goedwig a gwneud fy ngwobr Dug Caeredin. Alla i ddim gwneud y rhain nawr. Serch hynny, dwi ddim yn gweld eisiau Mathemateg na Gwyddoniaeth." - Person ifanc

"Dwi’n gwneud gwaith ysgol gartref ac rwy’n cael negeseuon e-bost rheolaidd gan fy athrawon pwnc. Rwy'n cwblhau gwaith ar gyfer pob pwnc. Mae fy rhieni gartref i'm helpu pan fydd angen help arnaf." - Person ifanc

"Y peth dwi’n i'n ei golli fwyaf am yr ysgol yw gweld ein hathrawon a'n ffrindiau. Mae'r ysgol ar-lein yn llawer mwy dryslyd i mi oherwydd dydi fy athro ddim yn gallu egluro pethau cystal â chynt... Gan fy mod i gartre, dwi wedi bod yn cael llai o help" - Person 11 oed o Ferthyr Tudful

"Yr hyn rwy’n ei golli fwyaf am yr ysgol yw bod yr esboniad roedd yr athrawon yn ei roi cyn y pandemig yn well na nawr. Dwi hefyd yn gweld eisiau fy ffrindiau, fy athrawon ac rydw i'n colli'r pynciau roedd yn rhaid i ni eu gwneud a bod her rhwng dosbarthiadau "- Person 11 oed o Gaerdydd

“Does gen i ddim llawer o ffrindiau gan fy mod i wedi symud i dŷ newydd pan ddechreuodd hyn i gyd. Rwy’n byw yng nghanol unman a does dim gwasanaeth na dim ”- Person ifanc

**Mynediad at gymorth neu wybodaeth – Dywedodd llawer o bobl ifanc eu bod yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnyn nhw ond dywedodd rhai nad oedd y ddarpariaeth yr un fath â chyn y cyfyngiadau symud neu fod diffyg mynediad at wybodaeth yr oedd ei hangen arnyn nhw.**

"Mae fy Mam, Dad, Mam-gu,Tad-cu a'r athrawon yn gwrando arna i. Dwi ddim wir eisiau gwybod beth sy'n digwydd ond mae Mam a Dad yn dweud y pethau pwysig wrtha i" - Person ifanc

"Mae bod gartref wedi bod yn straen mawr, methu â mynd allan, ynysu yn y tŷ, a methu â gwneud y gwaith ysgol oherwydd does gen i ddim mynediad at wefan yr ysgol. Cysylltodd yr ysgol â mi i ddweud eu bod yn mynd i ddod â'r gliniadur ers mis Mawrth, ond mae tri mis wedi mynd heibio ac maen nhw’n dal heb ddod ag ef, a hefyd dydyn nhw ddim yn ateb y negeseuon a hefyd dydy fy athro / athrawes ddim yn fy helpu gyda'r gwaith ysgol dwi wedi’i golli." – Plentyn 11 oed o Gaerdydd

"Mae pobl wedi ffonio Mami i gadarnhau bod gennym yr hyn sydd ei angen arnom. Rydyn ni'n cael llawer o hwyl yn dysgu." - Plentyn 2 oed o Ferthyr Tudful (wedi'i gwblhau gyda chymorth rhiant)

"Mewn un teulu, mae gan fam anawsterau dysgu a hefyd dau o'i thri phlentyn hynaf. Mae’r tri phlentyn i gyd mewn gwahanol ysgolion. Nid oedd gan y fam unrhyw syniad sut i gael gafael

ar y gwaith ysgol ar-lein, na’r plant chwaith. Roedd yr athro ysgol gynradd wedi dangos i’r fam ar ddiwrnod olaf yr ysgol sut i ddefnyddio ap. Ni allai’r fam wneud hyn ac roedd meddwl na allai gefnogi ei merch drwy’r cyfnod hwn yn achosi straen mawr iddi. Wrth siarad â'r athro yn gyntaf, allai hi ddim ddeall nad oedd teulu'n gallu lawrlwytho ap a chael mynediad i'r gwaith. Ar ôl i mi roi’r manylion iddi, fe ddechreuodd hi ddeall ac erbyn hyn mae’n anfon pecynnau gwaith ati yn rheolaidd ac yn siarad â’r fam yn rheolaidd. Nid wyf yn siŵr a fyddai hyn wedi digwydd pe na bai ganddi eiriolwr." - Aelod o staff sy’n gweithio gyda phobl ifanc

“Fedra i ddim gweld fy nghynghorydd mwyach, felly rwy’n siarad â’r ddynes arall hon dros y ffôn. Dydw i ddim yn hoffi gwneud hynny gan nad yr un fenyw yw ac rwy’n gorfod siarad dros y ffôn. Mae Dad bob amser yno i mi os bydd angen sgwrs." - Person 13 oed o Ferthyr Tudful

"Rwy'n gwybod bod yna athrawon sy’n gallu helpu ac rwy'n cael help gan fy Ngweithwyr Cymorth Personol ar unrhyw adeg. Rwy'n credu nad yw pethau yr un peth nawr, serch hynny."- Person ifanc

"Mae pobl ifanc yn ffonio/tecstio’r Gweithwyr Cymorth ac yn gofyn iddyn nhw chwilio Google pan oedden nhw'n arfer gallu mynd i lyfrgelloedd neu ofyn i ffrindiau maen nhw'n eu gweld." – Gweithiwr proffesiynol gyda phobl ifanc

"Mae aros gartre yn ddiflas. Alla i ddim gwneud gwaith cartref achos all Mam ddim dod o hyd iddo ar y Chromebook" – Plentyn 7 oed o Gaerdydd

**Addasu i ffordd newydd o ddysgu – Roedd sawl person ifanc yn cyfeirio at ddiffyg strwythur yn eu bywydau wrth iddyn nhw fethu â bod yn eu hamgylchedd dysgu reolaidd. Dangosodd rhai o'r sylwadau hyn effaith negyddol ar eu lefelau cymhelliant ond dywedodd eraill ei bod yn help iddyn nhw roi cynnig ar ffyrdd newydd o ddysgu.**

"Dydw i ddim yn mynd i ysgol ond rwy'n mynd i ddarpariaeth arbennig gyda grŵp bach. Mae hyn i gyd yn frwydr fawr i mi. Does gen i ddim trefn nawr. Rwy gartref yn fy ystafell wely y rhan fwyaf o'r amser. Bron y cyfan rwy’n ei wneud yw cysgu. Rydw i wedi mynd yn ddiog iawn." – Person ifanc

"Roedd un person ifanc (15 oed) hefyd eisiau i mi ddweud ei fod yn falch o’r cyfyngiadau symud gan fod ei deulu'n ddiogel, mae ganddyn nhw fwy o amser felly mae'n dysgu coginio prydau bwyd a phobi pan fyddai fel arfer allan gyda'i ffrindiau" - Aelod o staff yn gweithio gyda phobl ifanc

"Mae bod gartref yn llawer haws oherwydd does dim rhaid imi orffen y gwaith mewn awr  a galla i fynd yn ôl ato yn nes ymlaen." - Person 11 oed o Ferthyr Tudful

**Pryderon ynghylch dychwelyd i'r ysgol sy'n gysylltiedig ag iechyd - Cafwyd nifer fach o sylwadau gan bobl ifanc yn tynnu sylw at eu pryderon ynghylch dychwelyd i ysgolion lle roedd ganddyn nhw, neu aelod o'r teulu, broblem iechyd.**

“Rwy’n bryderus ynglŷn â mynd yn ôl i’r ysgol gan fy mod yn byw gyda fy mam-gu oedrannus a dydw i ddim am ddod â’r feirws i’r tŷ. Dim ond am dro bach yn y car rydyn ni’n mynd allan gan fy mod yn awtistig ac mae hyn yn ffordd o fy nhawelu." - Person 15 oed o Ferthyr Tudful

"Cyn hyn, doeddwn i ddim mwynhau mynd i'r ysgol rhyw lawer, roedd yn straen enfawr arna i ac roeddwn i wedi gobeithio y byddai'n cael ei ganslo i ddechrau oherwydd bod fy chwaer yn agored i niwed. Y diwrnod y gadewais yr ysgol roedd yr athrawon yn wych. Fe wnaethant yn siŵr fy mod yn casglu fy holl lyfrau, rhoi dogfennau a phapurau imi weithio gartref a helpu i sicrhau bod gennyf popeth roeddwn ei angen. Ond pan ddywedon nhw am y graddau a ragwelwyd roeddwn yn siomedig na chefais gyfle i sefyll fy arholiadau." - Plentyn sy’n geisiwr lloches

Sylwch, yn ychwanegol at y crynodeb hwn, amlygwyd amrywiaeth o themâu addysg yng Nghrynodeb 1 gan gynnwys; diffyg darpariaeth ddigidol; mynediad at fwyd (gan gynnwys prydau ysgol am ddim); a materion ymlyniad o ganlyniad i ryngweithio cymdeithasol cyfyngedig.

## Rhan 2 – Canfyddiadau allweddol ychwanegol

**Llesiant - Pan ofynnwyd i bobl ifanc sut roedden nhw’n teimlo a gyda phwy y gallen nhw siarad am eu teimladau, roedd ystod o ymatebion gan gynnwys datganiadau am gael eu gorlethu a'u dychryn, neu i’r gwrthwyneb, eu yn bod ddigynnwrf neu'n ddigyffro. Dywedodd y mwyafrif fod ganddyn nhw rywun y gallent siarad â nhw.**

"Rwy'n ceisio peidio â meddwl gormod am yr hyn sy'n digwydd. Dwi ddim yn deall popeth mewn gwirionedd." - Person ifanc

“Dydw i ddim yn poeni y bydd neb yr wyf yn ei adnabod yn cael y feirws ond mae arnaf ofn y bydd hyn yn effeithio arnon ni’n ariannol a’r effaith y bydd yn ei chael ar ein hiechyd meddwl. Rwy'n siarad â fy nhad am fy nheimladau." - Person 13 oed o Ferthyr Tudful

"Rwyf wedi colli cysylltiad â ffrindiau oherwydd ni allaf eu gweld mwyach, rwy'n teimlo'n unig iawn y rhan fwyaf o'r amser hefyd. Bellach mae fy Mam yn cael ffitiau bob dydd oherwydd straen." - Person 13 oed o Ferthyr Tudful

"Rwy'n teimlo'n ddigynnwrf nawr. Rwy'n siarad â Dad am fy nheimladau." - Person 13 oed o Ferthyr Tudful

"Rydyn ni'n mynd am dro ar hyd gwahanol lwybrau. Rwy'n mwynhau rhedeg a neidio. Rwy’n hapus." - Plentyn 2 oed o Ferthyr Tudful (wedi'i gwblhau gyda chymorth rhiant)

"Mae Mam a Dad yn gwrando arna i, maen nhw'n gwneud eu gorau." - Plentyn 7 oed o Gaerdydd

“Rwy’n teimlo’n bryderus iawn ar hyn o bryd oherwydd nid wyf yn siŵr a fydd popeth fel yr oedd o’r blaen yn y DU ar ôl y pandemig. Mae llawer o bobl wedi marw o’r coronafeirws ac mae arna i ofn bod pawb yn y byd yn mynd i farw gan fod Covid yn dod yn ei ôl mewn rhai gwledydd eraill." - Plentyn 11 oed o Gaerdydd

“Rwy’n credu bod pawb yn cadw mewn cysylltiad â phawb, felly does neb yn teimlo ar eu pennau eu hunain, ac rwy’n credu ei bod yn dda gweld bod mwyafrif y cyhoedd yn dilyn y rheolau o ran y cyfyngiadau.” - Person 17 oed yn byw gyda gofalwyr maeth

"Rwy'n drist gan na alla i fynd allan fel arfer. Alla i ddim mynd i'r parciau na'r traeth. Mae ofn arna i ac rwy’n poeni nad yw'r feirws yma yn mynd i ddod i ben." - Plentyn 7 oed o Gaerdydd

"Rwy'n teimlo'n ddigynnwrf oherwydd does dim cymaint o bwysau. Dydw i ddim yn siarad â neb. Bydda i’n dod o hyd i le tawel ym myd natur neu gartref ac yn meddwl. Rwy'n gwneud ychydig o ymarfer corff fel cerdded a phêl-rwyd ac rydw i'n mynd allan ychydig." - Plentyn 11 oed o Ferthyr Tudful

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**CYPE(5)-17-20 - Papur i'w nodi 1**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Alun Jones, Prif Weithredwr Dros Dro, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad | Date: 30 Mehefin 2020

Pwnc | Subject: **Covid-19: Unedau cleifion mewnol gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

Annwyl Alun,

Ers dechrau'r pandemig Covid-19, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi bod yn craffu ar y camau a gymerwyd i reoli'r effaith ar blant a phobl ifanc. Fel rhan o'r gwaith craffu hwn, rydym wedi cymryd diddordeb mawr yn effaith y pandemig ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Un o'n pryderon allweddol ar ddechrau'r argyfwng iechyd cyhoeddus oedd effaith Covid-19 ar unedau cleifion mewnol gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mewn atebion i gwestiynau ynghylch hyn, cawsom sicrwydd y byddai cleifion ond yn cael eu hanfon o'r unedau pan fyddai'n glinigol briodol i wneud hynny.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ein diweddaru ar y trefniadau sydd bellach ar waith i Arolygiaeth Iechyd Cymru ymweld â chyfleusterau cleifion mewnol a'u harchwilio, a phe gallech hefyd ddarparu amlinelliad byr o'r cynlluniau sydd gennych ar waith ar gyfer ymateb i  lacio neu dynhau'r gofynion o ran cyfyngiadau symud yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Eitem 8.2

**CYPE(5)-17-20 - Papur i'w nodi 2**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2020

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mai lle gofynnodd y Pwyllgor am fanylion penodol am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod plant nad yw gwasanaethau'n gwybod amdanynt o bosibl ond sy'n agored i niwed, neu a allai ddod yn agored i niwed, yn cael gwybodaeth am sut i gael cymorth.

Rwy'n falch o weld bod nifer y plant agored i niwed sy'n mynychu'r ysgol wedi cynyddu ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau. Yn ystod yr wythnos 15 i 19 Mehefin, mynychodd ychydig dros 1,500 o blant agored i niwed yr ysgol, sef 6.3% o'r holl blant sy'n agored i niwed yn unol â'r diffiniad presennol.
Mae awdurdodau lleol wedi ein sicrhau eu bod yn blaenoriaethu cymorth i blant agored i niwed, boed hynny mewn hyb neu gartref yn ystod y cyfnod hwn.

Mae swyddogion yn gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, gan ymgynghori â rhanddeiliaid allanol, i ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau er mwyn helpu i nodi achosion o niwed neu gam-drin cudd, hyrwyddo prosesau i roi gwybod am bryderon a chefnogi plant a phobl ifanc i ddatgelu achosion wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrch gyhoeddus, cyngor i ymarferwyr mewn asiantaethau a gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc. Ceir rhagor o fanylion isod: -

- Ar 6 Gorffennaf bydd yr ymgyrch “Gyda'n Gilydd Gallwn Gadw Pobl yn Ddiogel” yn cael ei lansio. Bydd yr ymgyrch yn annog pobl i gysylltu â'u gwasanaethau cymdeithasol lleol neu ffonio 101 os ydynt yn bryderus bod aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog yn wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Caiff yr ymgyrch ei chynnal tan 16 Awst a bydd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion ar y radio a hysbysebion digidol i ledaenu'r neges. Bydd y digrifwr, Rhod Gilbert, yn cefnogi'r ymgyrch drwy recordio'r hysbysebion radio a ffilmio ei hun yn siarad am

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bwysigrwydd ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol os oes gennych bryder am blentyn, person ifanc neu oedolyn.

- Mae canllaw ymarfer amlasiantaeth wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu ymarferwyr i nodi achosion o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod; rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelu a rheoli datgeliadau gan blant a phobl ifanc. Mae'r canllaw yn cysylltu'n uniongyrchol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n hyrwyddo ymarfer diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bwriedir cyhoeddi'r canllaw hwn ar 6 Gorffennaf yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion a chaiff ei hyrwyddo'n eang gan y Byrddau Diogelu rhanbarthol a thrwy rwydweithiau penodol i'r sector. Wrth inni symud ymlaen i'r cam adfer, byddwn yn ymateb i dystiolaeth mewn perthynas â'r angen am unrhyw gymorth pellach ar gyfer ymarfer diogelu wrth inni gytuno ar ffyrdd newydd o weithio.

- Yn ogystal, rydym yn bwriadu cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i roi gwybod iddynt ei bod yn 'ddiogel rhoi gwybod', beth fydd yn digwydd os byddant yn datgelu achos o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod a'u sicrhau y byddan nhw a'u teuluoedd yn cael cymorth a chefnogaeth. Bydd y wybodaeth hon yn briodol i oedran y plant a'r bobl ifanc, a chaiff y wybodaeth ei dylunio mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb plant a phobl ifanc o oedrannau gwahanol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n uniongyrchol gyda swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd. Rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid allanol er mwyn llywio'r gwaith hwn. Rydym yn nodi cyfleoedd i gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yn y gwaith o gynhyrchu deunyddiau a gwneud penderfyniadau am y ffordd orau o gyfleu negeseuon. Rydym yn gweithio i gwblhau'r adnoddau hyn i'w cyhoeddi ar 7 Medi. Byddwn yn cytuno ar gynllun cyfathrebu ar y cyd â phartneriaid er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cyrraedd cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl.

O ran eich cais am fynediad parhaus at ddata; mae'r ddogfen ‘Gwiriadau Gofal Cymdeithasol ar gyfer COVID-19 – Gwiriadau Plant a Theuluoedd 8- 24 Mehefin 2020’ ar gael yn Atodiad 1. Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei ychwanegu at restr ddosbarthu'r ddogfen data gwiriadau. Mae'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cais i Lywodraeth Cymru am y data hyn yn golygu mai dim ond er mwyn i'r Pwyllgor graffu ar fesurau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith COVID-19 ar blant agored i niwed y caiff y wybodaeth ei rhannu. Ni ddylid defnyddio'r data at unrhyw ddiben arall heb gael caniatâd perchennog y data ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu na ddylai'r data gael eu rhannu na'u cyhoeddi mewn unrhyw ffordd heb gael caniatâd ymlaen llaw. Os bydd angen i bobl ychwanegol weld y data, dylid e-bostio Llywodraeth Cymru er mwyn cael caniatâd. Ar gyfer pob ymholiad ac i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r data hyn y tu allan i'r diben gwreiddiol a nodwyd, e-bostiwch owen.davies005@gov.wales.

Hyderaf y bydd y wybodaeth bellach hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

**COVID-19**
**Gwiriadau Gofal Cymdeithasol Wythnosol - Plant a Theuluoedd**
**Gwiriadau 8 - 24 Mehefin 2020**

**Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr - 22**

| **1. Sut y byddech yn dosbarthu eich gallu i weithredu ar hyn o bryd:** | | |
|---|---|---|
| GWYRDD | Mae rhai aelodau o'r staff yn absennol, ond rydym yn llwyddo i ddarparu'r rhan fwyaf o wasanaethau. | **100%** |
| OREN | Mae aelodau o'r staff yn absennol ac mae hyn yn effeithio rywfaint ar rai gwasanaethau, ond rydym yn gallu darparu gwasanaethau o hyd. | **0%** |
| COCH | Mae cryn dipyn o'r staff yn absennol a dim ond gwasanaethau hanfodol y gallwn eu darparu. | **0%** |

| **2. Faint o gysylltiadau rydych chi wedi'u cael yn y gwasanaethau plant yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 3,791 ↑ |
|---|---|
| Ydy'r ffigur hwn yn uwch, yn rhywbeth tebyg neu'n llai na'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn? | Nododd **36%** ei fod yn uwch<br>Nododd **50%** ei fod yn llai<br>Nododd **14%** nad oedd unrhyw newid<br>Nid oedd **0%** yn gallu ateb |
| Faint o'r uchod oedd yn ymwneud â mater diogelu? | 887 ↑ |
| Ydy'r ffigur hwn yn uwch, yn rhywbeth tebyg neu'n llai na'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn? | Nododd **27%** ei fod yn uwch<br>Nododd **41%** ei fod yn llai<br>Nododd **23%** nad oedd unrhyw newid<br>Nid oedd **9%** yn gallu ateb |

| **3. Faint o blant sy'n derbyn gofal yn eich awdurdod lleol ar hyn o bryd?** | 7,264↔ |
|---|---|
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **45%** ei fod wedi cynyddu<br>Nododd **41%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **14%** nad oedd unrhyw newid |

| **4. Faint o blant yn eich awdurdod lleol sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd?** | 3,100 ↔ |
|---|---|
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **59%** ei fod wedi cynyddu |

| | |
|---|---|
| | Nododd **36%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **5%** nad oedd unrhyw newid |

| | |
|---|---|
| **5. Faint o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd wedi chwalu oherwydd achos posibl o COVID-19 neu achos a gadarnhawyd yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 0↓ |
| Faint o'r rhain oedd mewn lleoliad maeth? | 0 |
| Faint o'r rhain oedd mewn lleoliad preswyl? | 0 |
| Faint o'r rhain oedd yn aros gyda theulu neu ffrindiau? | 0 |

| **6. Ydych chi'n gallu parhau i gysylltu â'r plant hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt ar hyn o bryd?** | | |
|---|---|---|
| GWYRDD | Ydyn, mae gennym drefniadau i gysylltu â'r holl blant y mae angen gofal a chymorth arnynt, naill ai yn bersonol neu drwy ddefnyddio technoleg. | **86%** |
| OREN | Nid ydym yn cwrdd ag unrhyw blant wyneb yn wyneb oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol ac rydym yn cynnal ein holl fusnes yn electronig lle bo hynny'n bosibl. Mae'n bosibl y bydd hyn wedi effeithio ar rai pethau o ganlyniad. | **14%** |
| COCH | Rydym wedi gwneud trefniadau i gysylltu â'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn unig ar hyn o bryd. | **0** |

| **7. Ydy eich gweithwyr cymdeithasol a'ch cynghorwyr personol yn gallu parhau i gysylltu â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal ar hyn o bryd?** | | |
|---|---|---|
| GWYRDD | Ydyn, mae gennym drefniadau i gysylltu â'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, naill ai'n bersonol neu drwy ddefnyddio technoleg. | **91%** |
| OREN | Nid ydym yn cwrdd ag unrhyw bobl ifanc wyneb yn wyneb oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol ac rydym yn cynnal ein holl fusnes yn electronig lle bo hynny'n bosibl. Mae'n bosibl y bydd hyn wedi effeithio ar rai pethau o ganlyniad. | **9%** |
| COCH | Rydym wedi gwneud trefniadau i gysylltu â'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn unig ar hyn o bryd. | **0** |

| | |
|---|---|
| **8. Faint o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal sydd wedi nodi eu bod yn dioddef caledi ariannol yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 32 ↓ |
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **23%** ei fod wedi cynyddu<br>Nododd **36%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **41%** nad oedd unrhyw newid |

| | |
|---|---|
| **9. Faint o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal sydd wedi rhoi gwybod am broblemau gyda thai neu lety yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 15 ↓ |
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **14%** ei fod wedi cynyddu<br>Nododd **27%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **59%** nad oedd unrhyw newid |

CYPE(5)-17-20 - Papur i'w nodi 3

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

**Royal College of Nursing**
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Cardiff
CF14 4XZ
**Ms L Turnbull**
Policy and Public Affairs Adviser, RCN Wales

Telephone: 029 2068 0738

Fax: 029 2068 0750
Email: lisa.turnbull@rcn.org.uk

2 June 2020

Lynne Neagle MS
Chair of the Children, Young people and Education Committee
Senedd Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SA

Dear Lynne,

I wish to express my thanks for allowing the Royal College of Nursing (RCN) Wales to present oral evidence to the Children, Young People and Education committee on the impact of COVID-19 on children and young people. Following your request, I am writing to your regarding the progress of the Healthy Child Wales Programme (HCWP) during COVID-19 pandemic.

At the beginning of the pandemic, health visitors were initially called into acute practice. This consequently depleted the numbers of available health visitors at the peak of the COVID-19 pandemic. Due to the unknown nature of the pandemic in the early stages and the challenges the NHS faced the RCN is understanding of the need to redeploy nursing staff. Nevertheless, this did have an adverse effect on the health visiting service, the HCWP and in particular home visits. Not all scheduled visits have been delivered during the COVID-19 pandemic. Consequently, RCN Wales members' have expressed concern regarding the monitoring of children's health and

**Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/
Royal College of Nursing of the United Kingdom**
20 Cavendish Square
Llundain/
London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
www.rcn.org.uk

**Noddwr/
Patron**
Ei Mawrhydi y Frenhines
Her Majesty the Queen

**Llywydd/
President**
Dr Cecilia Akrise Anim CBE, RGN, DPSN

**Prif Weithredwr Dros Dro ac Ysgrifennydd Cyffredinol/
Acting Chief Executive & General Secretary**
Dame Donna Kinnair

**Cyfarwyddwr Dros Dro, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**
Interim Director, RCN Wales
Helen Whyley RN, MA

**Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/
Royal College of Nursing Wales**
Tŷ Maeth
Rhodfa Ddwyreiniol Brenin George V
Caerdydd
CF14 4XZ
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Cardiff
CF14 4XZ

***Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisïau iechyd***

***The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies***

*Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofrestr Arbennig a sefydlwyd o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992*
*The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.*

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

**Royal College of Nursing**
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Cardiff
CF14 4XZ

**Ms L Turnbull**
Policy and Public Affairs Adviser,
RCN Wales

Telephone: 029 2068 0738

Fax: 029 2068 0750
Email: lisa.turnbull@rcn.org.uk

development as well as access to support when domestic abuse and child abuse occurs.

Thankfully, it is our understanding that most, if not all health visitors have returned back to practice and are re-establishing as much of the HCWP as possible following social distancing measure, for example, contact has been adapted and visits are being undertaken on an individual need basis.

Simply put, the HCWP is currently varied across Wales, however arranging contact remains a priority to every Health Board. RCN Wales members have expressed that contact is primarily undertaken virtually using WhatsApp and phone call, however there are arrangements in place for home visits providing there is appropriate Personal Protective Equipment (PPE) in place.

Many health boards have chosen to deliver the initial family assessment by phone, this allows the health visitor to obtain family history, discuss baby feeding, sleep patterns and provide useful information. This is followed by a home visit in PPE to weigh the baby. If further visits are required, they will be carried out in appropriate PPE.

General Practitioners (GPs) have expressed that the COVID-19 pandemic has greatly increased the use of remote consultations and has seen an improvement of technology in general, within their setting. Whilst COVID-19 has presented a lot of challenges, it is important to note that the roll out of technology and innovation has

**Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/ Royal College of Nursing of the United Kingdom**
20 Cavendish Square
Llundain/
London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
www.rcn.org.uk

**Noddwr/ Patron**
Ei Mawrhydi y Frenhines
Her Majesty the Queen

**Llywydd/ President**
Dr Cecilia Akrise Anim CBE, RGN, DPSN

**Prif Weithredwr Dros Dro ac Ysgrifennydd Cyffredinol/ Acting Chief Executive & General Secretary**
Dame Donna Kinnair

**Cyfarwyddwr Dros Dro, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**
Interim Director, RCN Wales
Helen Whyley RN, MA

**Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Royal College of Nursing Wales**
Tŷ Maeth
Rhodfa Ddwyreiniol Brenin George V
Caerdydd
CF14 4XZ

Tŷ Maeth
King George V Drive East
Cardiff
CF14 4XZ

***Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisïau iechyd***

***The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies***

*Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofrestr Arbennig a sefydlwyd o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992*
*The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.*

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

**Royal College of Nursing**
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Cardiff
CF14 4XZ

**Ms L Turnbull**
Policy and Public Affairs Adviser,
RCN Wales

Telephone: 029 2068 0738

Fax: 029 2068 0750
Email: lisa.turnbull@rcn.org.uk

been extremely beneficial to GP surgeries and this should be extended to health visitors and school nurses. With discussions of what the new normal will look like, it is important to establish that health visitors and school nurses urgently require an expansion of technology.

If you require a more detailed account of the impact of COVID-19 on the HCWP please do let me know.

Kind regards,

**Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/ Royal College of Nursing of the United Kingdom**
20 Cavendish Square
Llundain/
London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
www.rcn.org.uk

**Noddwr/ Patron**
Ei Mawrhydi y Frenhines
Her Majesty the Queen

**Llywydd/ President**
Dr Cecilia Akrise Anim CBE, RGN, DPSN

**Prif Weithredwr Dros Dro ac Ysgrifennydd Cyffredinol/ Acting Chief Executive & General Secretary**
Dame Donna Kinnair

**Cyfarwyddwr Dros Dro, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**
Interim Director, RCN Wales
Helen Whyley RN, MA

**Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Royal College of Nursing Wales**
Tŷ Maeth
Rhodfa Ddwyreiniol Brenin George V
Caerdydd
CF14 4XZ

Tŷ Maeth
King George V Drive East
Cardiff
CF14 4XZ

***Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisïau iechyd***

***The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies***

*Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofrestr Arbennig a sefydlwyd o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992*
*The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.*

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon